# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Llwyndyrys**

**Cartref Preswyl Llwyndyrys**
**Llechryd**
**Aberteifi**
**SA43 2QP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Llwyndyrys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Llwyndyrys Residential Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 02/02/2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan dîm rheoli a thîm o staff ymroddedig. Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth mewn ffordd gadarn drwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau archwilio a thrwy ei ymweliadau statudol.

Mae iechyd a llesiant unigol y bobl yn holl bwysig i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal a chymorth yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn, ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae'r rheolwr yn archwilio ac yn monitro'r broses o roi meddyginiaethau drwy ddefnyddio system meddyginiaethau electronig. Mae unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol cartref Llwyndyrys yn fawr.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Mae angen gosod arwyddion dwyieithog yn yr ardaloedd cymunedol.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn barn y bobl a'u perthnasau yn ystod ei ymweliadau statudol â'r gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion a dewisiadau'r unigolyn ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol ohono. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn gwneud cyfraniad gweithredol at y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal, ond mae angen gwneud cofnod o hyn. Gofynnir am safbwyntiau ac awgrymiadau gan y bobl a gweithredir arnynt. Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant am wneud hynny a gallant ddewis o blith amrywiaeth o opsiynau prydau. Mae'r bobl yn cyfathrebu yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau a chyfleoedd hamdden sy'n bwysig iddynt ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Mae ymdeimlad o gymuned sy'n helpu'r bobl i wneud ffrindiau ac i roi cymorth i'w gilydd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r gweithdrefnau recriwtio a dethol yn gadarn. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, arfarniad blynyddol a chymorth parhaus sy'n sicrhau bod y rhai hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn meddu ar y sgiliau cywir a'u bod yn rhoi gofal mewn ffordd briodol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn ffordd ragweithiol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r tîm o staff yn cael hyfforddiant gorfodol ac arbenigol er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigol y bobl. Caiff y staff eu cefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae ymdeimlad cartrefol yno. Cafodd hyn ei adleisio gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Mae'r bobl yn dewis ble yr hoffent eistedd a chymdeithasu â'u teulu a'u ffrindiau, gan gynnwys yn y gerddi pan fydd y tywydd yn sych. Mae golygfeydd cefn gwlad hyfryd i'w gweld. Byddai cyflwyno arwyddion dwyieithog i helpu'r bobl sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith yn cefnogi eu llesiant yn well.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, felly hefyd yr asesiadau risg cysylltiedig. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal, ond mae angen cofnodi'r broses hon ar y system cynllunio gofal electronig newydd. Caiff gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu cynnwys mewn ffordd ragweithiol pan fo angen hynny ar y bobl. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Mae system rheoli meddyginiaethau electronig wedi cael ei chyflwyno ac mae'r rheolwr yn ei defnyddio i archwilio a monitro'r broses o roi meddyginiaethau. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r maes i'w wella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Mae amseroedd prydau yn cynnig cyfle i'r bobl gwrdd a chymdeithasu. Mae bob amser amrywiaeth o opsiynau prydau ar gael i'r bobl ddewis o'u plith a chaiff yr opsiynau hyn eu harddangos er mwyn helpu'r bobl i wneud eu dewisiadau. Mae'r staff yn treulio amser yn helpu'r bobl nad ydynt yn gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain cystal drwy ddangos opsiynau ar blât iddynt i'w helpu i benderfynu. Yn ôl yr hyn a welsom yn ystod amser cinio, mae'r bobl wedi gwneud ffrindiau ac maent yn mwynhau cwmni ei gilydd.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn teimlo eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ac yn canmol y staff. Dywedodd y bobl wrthym, *“Llwyndyrys has a loving atmosphere, I wouldn’t change a thing”, “ I am very happy living here, the carers are great”, “everyone is kind, caring and go out of their way to make sure everyone is comfortable”* a *“the care is excellent, the staff are very compassionate and caring. I am always made to feel welcome. I know I can speak to the manager if I have any concerns. I know my wife is as safe as she can be living here”.*

Mae'r staff yn wybodus ac yn awyddus i helpu'r bobl i gael bywyd o'r ansawdd gorau. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth glir o anghenion, dymuniadau a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg os mai dyma yw dewis iaith yr unigolyn.

Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn rheolaidd lle gall y bobl roi eu barn a chynnig awgrymiadau ac y gweithredir arnynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mynychu'r cyfarfodydd ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd yn cadarnhau hyn.

Mae gweithgareddau yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ac annog y bobl i fyw bywydau llawn a boddhaus. Caiff y bobl gymorth i ddilyn eu diddordebau a'u hobïau, sy'n cynnwys ceir, crefftau, garddio a cherddoriaeth. Gwnaethom ymuno ag wyth unigolyn a oedd yn cael coffi, te a chacen yn yr ardd y bore hwnnw. Roedd y ddau aelod o'r staff a'r bobl yn rhyngweithio mewn ffordd ardderchog, ac roedd y bobl hefyd yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd ardderchog; roedd pob un ohonynt yn mwynhau'r heulwen. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“this is just so lovely, the sun is out, a hot cup of tea and plenty of laughing, what could be better”.*

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd hynny. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Mae cyfyngwyr ar y ffenestri lle bo'u hangen. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir bod eu hangen ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Mae cortynnau tynnu mewn argyfwng ar gael i'r bobl eu defnyddio, ond nid ydynt bob amser yn hongian yn rhydd nac yn ddigon hir i'r unigolyn allu eu cyrraedd a'u tynnu pe byddai'n cwympo. Trafodwyd hyn â'r rheolwr yn ystod yr ymweliad arolygu a chawsom sicrwydd y byddai'n ymdrin â hyn. Mae'r staff cadw tŷ yn sicrhau bod y gwasanaeth yn lân heb unrhyw arogleuon.

Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cyfleusterau en-suite ar gael mewn nifer o'r ystafelloedd gwely. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn lân, yn groesawgar ac yn gartrefol i'r bobl allu mwynhau eu profiad o'u defnyddio. Dywedodd un unigolyn wrthym ei bod yn edrych ymlaen at gael bath swigod y bore hwnnw.

Mae lluniau, gwaith celf ac arddangosfeydd yn y coridorau i'r bobl eu mwynhau ac iddynt allu rhyngweithio â nhw. Gall hyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w hystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol. Mae lifft a lifftiau grisiau i'r bobl eu defnyddio. Er bod arwyddion i dywys y bobl o amgylch y gwasanaeth, dylid ystyried gosod arwyddion dwyieithog o gofio bod nifer o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r bobl, gan gynnwys lluniau, ffotograffau, ornamentau ac eitemau o ddodrefn. Mae'r lolfeydd cymunedol a'r ystafell fwyta wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu'n dda ac maent yn groesawgar i'r bobl eu defnyddio a chymdeithasu ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod o'r farn bod cartref Llwyndyrys yn gartrefol. Mae rhaglen ailaddurno ac adnewyddu barhaus ar waith.

Mae'r gerddi wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn cynnig nifer o ardaloedd i'r bobl a'u hymwelwyr gwrdd a chymdeithasu a mwynhau'r golygfeydd pan fydd y tywydd yn caniatáu. Yn ogystal, ceir tŷ gwydr a gwelyau plannu uwch ar gyfer llysiau ac mae ieir i'w gweld yn crwydro'n rhydd dros y tir. Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn casglu wyau'r ieir ac fe'u defnyddir wrth wneud eu prydau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae AGC wedi cael copïau o adroddiadau sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhawyd hyn gan y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau monitro ansawdd ac archwiliadau. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r rheolwr yn frwdfrydig am ei rôl ac am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yng nghartref Llwyndyrys. Yn ogystal â chymorth gwerthfawr gan yr Unigolyn Cyfrifol, mae'r rheolwr hefyd yn cael cymorth gan dîm rheoli a thîm o staff brwdfrydig sy'n awyddus i hyrwyddo safonau uchel ac ethos y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym, *"we are a great team and work well together. We are well supported by the managers, clinical lead and RI", t's a great place to work, lovely atmosphere and really supportive managers"* ac *"it really is a lovely place to work".*

Mae prosesau recriwtio a dethol trylwyr ar waith. Mae cofnodion y staff yn cynnwys yr holl wiriadau a chliriadau gofynnol sydd ar waith cyn i aelod o staff ddechrau gweithio. Mae'r staff yn ymgymryd â phroses sefydlu gynhwysfawr yn unol â'u rôl a statws eu swydd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol er mwyn gallu cefnogi'r bobl y mae ganddynt weithiau anghenion cymhleth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr amrywiaeth o hyfforddiant y maent wedi'i gael a manteision hynny iddyn nhw ac i'r bobl sy'n cael cymorth ganddynt. Mae matrics hyfforddiant a chofnodion gofal y gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Mae pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth ardderchog o'i rôl wrth amddiffyn unigolion.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i Ddatganiad o Ddiben a chaiff hysbysiadau ar-lein eu cyflwyno i AGC yn unol â'r gofynion.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Ni ddarperir gwybodaeth am gofnodi a rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisi meddyginiaeth y darparwr. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/06/2024